



www.furthermaths.org.uk/wales



Case Study	Ysgol Maesydderwen
Address	Tudor St, Ystradgynlais, Abertawe SA9 1AP
University	Prifysgol Caerdydd

Astudiaeth Achos: Trosglwyddo i Brifysgol

Myfyriwr – Anna Clancy

Cefndir

Astudiodd Anna Clancy Mathemateg Bellach Safon Uwch trwy'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach. Cafodd ei hyfforddiant drwy hyfforddiant ar-lein a ddarperwyd gan FMSP Cymru. Roedd yn gweld y gwersi ar-lein yn ddiddorol iawn a theimlodd bod yr ystafell ddosbarth ar-lein yn hawdd i'w ddefnyddio ac i gael mynediad.

Cafodd FMSP Cymru air gyda Anna yn Ionawr 2016 ddwy flynedd ers cwblhau ei Arholiadau Mathemateg Pellach.

Ar ôl i mi basio fy arholiadau Mathemateg Bellach, es i Brifysgol Caerdydd i astudio Mathemateg Bsc. Roedd astudio Mathemateg Bellach drwy FMSP yn hynod o ddefnyddiol, gan ei fod yn fy ngalluogi i ddysgu yn annibynnol oherwydd bod llai o oriau gydag athro, sydd yn sgil hanfodol ar gyfer astudio yn y brifysgol, pa bynnag bwnc rydych yn dewis ei astudio. Pe na fyddwn wedi astudio Mathemateg Bellach gyda FMSP, credaf y byddai wedi bod yn annhebygol y byddwn wedi cael cyfartaledd blwyddyn gyntaf o 95%, neu wedi cael fy noddi i fynd i Djangocon Europe 2015 (cynhadledd codio ryngwladol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd) o ganlyniad i ddarn o waith cwrs wnes i ar gyfer y modiwl cyfrifiadurol. Hefyd, yn y flwyddyn gyntaf, roedd llawer o'r modiwlau yn cynnwys gwaith roeddwn wedi ei wneud drwy Mathemateg Bellach, felly roedd yn gwneud y modiwlau hynny llawer haws nag i'r pobl hynny nad oeddent wedi gwneud Mathemateg Pellach. Byddwn yn bendant yn argymhell astudio Mathemateg Bellach i unrhyw un sy'n ystyried gwneud unrhyw radd gwyddoniaeth, ac yn enwedig yn gwneud hynny drwy FMSP oherwydd eich bod wedyn yn dysgu llawer yn fwy annibynnol, a fydd yn werthfawr i chi yn ystod eich gradd.